Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Prosiect Carbon Bositif

**CNC yn datblygu i fod yn esiampl mewn rheolaeth carbon a rhannu arferion gorau i'w defnyddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'**



## Y Prosiect Carbon Bositif

- Gwerthuso'r ystâd yn gynhwysfawr, gan amcangyfrif allyriadau CNC a'r carbon sy'n cael ei storio mewn cynefinoedd i werthuso statws carbon net y sefydliad.
- Ystyried mesurau uchelgeisiol ac arloesol o leihau ein heffaith carbon, darparu prosiectau i ddangos mesurau ac ymgorffori dulliau rheoli carbon ledled CNC.
- Cynllunio dulliau gweithredu'r dyfodol i gyflymu'r broses o ddarparu mesurau i gyflawni targedau lleihau carbon cenedlaethol a rhyngwladol.
- Ffurfio rhan o ddylanwad cadarnhaol ehangach CNC i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i rôl yn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
- Cyflawni o dan bolisi a deddfwriaeth allweddol i ddarparu manteision ehangach i Gymru (e.e. o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd a'r Siarter Datblygu Cynaliadwy).
- Dysgu o brofiadau eraill ac ymestyn ein heffaith positif drwy rannu arferion gorau i'w defnyddio ledled sector cyhoeddus Cymru.

## Cysylltu â ni

Os hoffech wybod mwy am y Prosiect Carbon Bositif neu rannu eich profiad o reolaeth carbon, cysylltwch ag aelod o'r tîm os gwelwch yn dda.


**Jennifer Kelly** (Rheolwr Prosiect)
jennifer.kelly@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Anna Jones** (Cynghorydd Rheoli Carbon a Risgiau'r Hinsawdd
anna.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk




## Cyflwyno dull cynhwysfawr o reoli carbon mewn pum cam allweddol

### 1 Cyfrif statws carbon net CNC

- Casglu data allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau, trafnidiaeth ac wrth reoli ein hystad.
- Amcangyfrif cyfraddau atafaeliad carbon y cynefinoedd ar ein hystâd.
- Amcangyfrif carbon wedi storio yng nghynefinoedd ein hystad.

### 2 Gwerthuso opsiynau lliniaru

- Gwerthuso'r opsiynau i leihau allyriadau, gwella cyfradd dal a storio carbon a diogelu stociau carbon.
- Blaenoriaethu opsiynau darparu drwy ystyried costau, manteision ehangach ac ymarferoldeb.

### 3 Prosiectau arddangos

- Cyflawni prosiectau cychwynnol gan ddangos opsiynau lliniaru posibl ac arferion gorau.

### 4 Cyfathrebu a gweithio ag eraill

- Cydweithio gyda, a dysgu gan, sefydliadau blaengar sy'n rheoli eu heffaith carbon mewn ffyrdd uchelgeisiol ac arloesol.
- Annog staff i gymryd rhan, a gweithio ar y cyd ledled CNC i ymgorffori dulliau rheoli carbon da yn ein gweithgareddau.
- Hwyluso ac annog gweithrediad positif ar reoli carbon ledled sector cyhoeddus Cymru drwy gyfathrebu ein dull a lledaenu arferion gorau.

### 5 Cofnodi profiad a chynllunio dulliau gweithredu'r dyfodol

- Llunio adroddiadau i gofnodi a rhannu ein profiad a'n dull.
- Datblygu cynllun ar gyfer gweithredu opsiynau lliniaru yn y dyfodol o fewn CNC i gynnal gweithrediad ac i ddatblygu CNC ymhellach fel esiampl ym maes rheoli carbon.